Y gwaith a'r gwasanaethau a ddarperir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brychieniog

Cyngor Defnyddiol am Ganiatad Cynllynio

Cyflwyniad

Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o newidiadau ac estyniadau i eiddo a newidiadau i'r defnydd o dir. I gael caniatâd rhaid cyflwyno cais cynllunio i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (APCBB). Diben y drefn hon yw rheoli a gwarchod amgylchedd y Parc, cadw cymeriad adeiladau pwysig ac ardaloedd naturiol a chryfhau'r economi lleol.

Serch hynny, nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer pob estyniad a newid i gartref. Mae hawl gan unigolion i ymgymryd â rhai mathau o ddatblygiad heb wneud cais cynllunio.

Bwriad yr erthygl hon yw cynnig cyngor syml yn unig ac ni ddylid ei hystyried fel esboniad llawn o'r gyfraith yn ymwneud â chynllunio. Dylech gysylltu ag APCBB cyn ymgymryd ag unrhyw fath o waith.

Waeth a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio, mae cynlluniau da yn bwysig bob tro. Dylai estyniadau a newidiadau fod ar yr un raddfa ac yn gydnaws â'ch cartref, ac mae manylion fel agoriadau ffenestri a deunyddiau cydnaws yn bwysig hefyd. Wrth baratoi cynlluniau ar gyfer estyniadau a newidiadau anogir perchnogion tai i gyflogi pensaer o safon. Mae Swyddogion Cynllunio'r Awdurdod yn gallu cynnig arweiniad bras i chi ar eich cynllun cyn i chi gyflwyno'ch cais.

Fel arfer bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer estyniadau a newidiadau i fflatiau (ac eithrio newidiadau mewnol). Os ydych chi'n byw mewn t_ sy'n adeilad rhestredig, dylech ofyn am gyngor APCBB cyn dechrau gwaith o unrhyw fath. Bydd APCBB hefyd yn rhoi cyngor ar ofynion caniatâd cynllunio ar gyfer adeiladau rhestredig.

Oes Angen Caniatad Cynllynio arna'i?

Canllaw i Berchnogion Tai

Estyniadau, Newidiadau ac Ychwanegiadau

Mae angen caniatâd cynllunio:

- Os bydd maint y t_ gwreiddiol yn cynyddu gan fwy na 50 metr ciwbig (caiff estyniadau blaenorol, neu adeiladau dros 10 metr ciwbig sydd wedi'u codi ar dir eich eiddo eu tynnu o'r cyfanswm hwn);
- Os bydd yr estyniad, neu'r newid yn uwch na rhan ucha'r to ar yr adeilad gwreiddiol;
- Os bydd yr estyniad, neu'r newid yn fwy na phedwar metr o uchder ac o fewn dau fetr i'ch ffin;
- Os ydych yn argymell unrhyw estyniad neu newid i'r to, yn cynnwys ffenestri cromen (nid oes angen caniatâd ar gyfer ffenestri to fel arfer);
- Os bydd yr estyniad, y newid neu'r ychwanegiad yn agosach i ffordd na rhan agosaf y t_ gwreiddiol (oni bai bod pellter o 20m o leiaf rhwng yr adeilad a'r ffordd); a/neu
- Os yw'r gwaith arfaethedig yn cynnwys cladin ar du allan y t_ (nid oes angen cani atâd ar gyfer rendro waliau fel arfer).

Cynteddau

Mae angen caniatâd cynllunio:

- Os yw'r arwynebedd tir yn fwy na thri metr sgwâr
- Os yw'r uchder yn fwy na thri metr; a/neu
- Os bydd unrhyw ran o'r cyntedd o fewn dau fetr i ffordd.

Tai gwydr, Pyllau ac adeileddau eraill

Mae angen caniatâd cynllunio:

- Os bydd unrhyw adeilad/adeiledd yn agosach i ffordd na rhan agosaf y t_ gwreiddiol, oni bai bod pellter o 20 metr o leiaf rhyngddo a'r ffordd;
- Os nad yw'r adeiladau/adeileddau yn cael ei ddefnyddio at ddibenion domestig;
- Os bydd yr adeilad yn fwy na thri metr o uchder (neu bedwar metr os oes ganddo do crib);
- Os oes bwriad i osod tanc storio olew sy'n dal mwy na 3,500 litr, (mae angen caniatâd ar bob tanc LPG); a/neu
- Os bydd yr adeilad/adeiledd newydd yn golygu bod yna adeiladau/adeileddau ar fwy na hanner tir eich cartref.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae pob adeilad a gaiff ei godi ar dir eich cartref sy'n fwy na 10 metr ciwbig yn cael ei ystyried fel estyniad i'ch cartref.

Soser Lloeren

Mae angen caniatâd cynllunio:

- Os bydd y soser lloeren/antena â diamedr o fwy na 90cm;
- Os bydd y soser lloeren/antena yn cael eu gosod ar simnai, wal neu do sy'n wynebu ffordd; a/neu
- Os bydd mwy nag un soser lloeren ar adeilad ar unrhyw adeg.

Ffensys, waliau a giatiau

Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer pob ffens, wal neu giât sydd wrth ymyl ffordd ac sy'n uwch nag un metr (dau fetr ym mhobman arall), neu pe byddai'n amharu ar y gweledegd sydd ei angen i sicrhau diogelwch ar y ffyrdd.

Patios, llefydd parcio, mynedfeydd

Nid oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer patios, llefydd parcio na mynedfeydd (oni bai eu bod yn cael eu defnyddio at ddefnydd annomestig). Bydd angen caniatâd cynllunio fel arfer os yw mynediad sy'n arwain at ffordd yn cael ei agor (neu fod mynediad o'r fath yn cael ei newid).

NB

(1) Yn y daflen hon mae'r term 'ffordd' yn cyfeirio at ffyrdd cyhoeddus, llwybrau cyhoeddus a llwybrau ceffylau.
(2) Dylid mesur y tu allan i'r adeilad.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag:
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog , Plas-y-Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP

Ffoniwch **01874 624437** neu e-bostiwch enquiries@breconbeacons.org

PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG
BRECON BEACONS NATIONAL PARK